Er gwaetha'r maen a'r gwylwyr

Caneuon Ffydd: Rhif 552

Er gwaetha'r maen a'r gwylwyr
    cyfododd Iesu'n fyw;
daeth yn ei law alluog
    â phardwn dynol-ryw;
gwnaeth etifeddion uffern
    yn etifeddion nef;
fy enaid byth na thawed
    â chanu iddo ef.

Boed iddo'r holl ogoniant,
    Iachawdwr mawr y byd;
mae'n rhaid i mi ei ganmol
    pe byddai pawb yn fud;
mae'n medru cydymdeimlo
    â gwaeledd llwch y llawr,
a charu heb gyfnewid
    i dragwyddoldeb mawr.

MORGAN RHYS, 1716–79

MYFYRDOD

Gadawodd Morgan Rhys gasgliad gwerthfawr o emynau inni yn etifeddiaeth, ond fel llawer o emynwyr eraill dioddefodd o dan law amrywiol olygyddion a fu'n addasu, twtio a thacluso ei emynau. Ymddengys mai'r ddau bennill a roddwyd at ei gilydd yn *Llawlyfr Moliant* y Bedyddwyr sydd gennym yma, ac nid y ddau bennill oedd yn dilyn ei gilydd yng nghasgliad Morgan Rhys ei hun, *Golwg ar Ddinas Noddfa* (1770).

Beth bynnag am yr hanes, mae'r emyn bellach yn ymgartrefu'n ddiogel yn adran 'yr atgyfodiad a'r esgyniad' yn *Caneuon Ffydd*, ac fe fynega wirionedd rhyfeddol gwyrth atgyfodiad Crist gyda chadernid a hyder. Fe'n sicrheir ni yn yr Efengylau i gyd fod corff Iesu wedi ei gladdu mewn beddrod a maen mawr wedi ei dreiglo ar draws ei fynedfa, a sonia'r Efengylau

Cyfolwg fod y gwragedd yno'n gwylio'r claddu ac yn gwybod wedyn at ba fedd i ddod er mwyn eneinio'r corff pan ddeuai'r cyfle cyntaf ar ôl y Saboth. Sonia Mathew yn ei dro am y milwyr a benodwyd ar gais yr Iddewon rhag i neb geisio lladrata corff Crist. Roedd y merched a aeth at y bedd yn gynnar y bore Sul hwnnw ar ôl i'r Saboth fynd heibio, yn poeni am y maen, 'oherwydd yr oedd yn un mawr iawn' (Marc 16:4), a phwy a fyddai yno i'w symud iddyn nhw. Wydden nhw ddim, mae'n debyg, am y milwyr oedd wedi eu gosod i wylio'r bedd. Mae llyfrau cyfan wedi eu hysgrifennu yn olrhain y digwyddiadau rhyfeddol ar fore'r atgyfodiad, un ohonyn nhw'n gofyn 'Pwy symudodd y maen?' *(Who moved the stone?* gan Frank Morison), lle gosodir yr holl dystiolaeth i'r atgyfodiad a geir yn yr Efengylau a'i dadansoddi er mwyn cael ateb. Ni fedrai'r beddrod a'r maen, er ei fod yn fawr, na'r milwyr gadw Iesu rhag cael ei gyfodi'n fyw. Fe gyfodwyd ef er eu gwaethaf.

Nid oes sôn yn yr Efengylau mai Iesu ei hun a symudodd y garreg fawr, er y gallai fod wedi gwneud hynny, ond y dystiolaeth yw iddi gael ei symud yn gynnar y bore Sul hwnnw a bod yn fodd i ddychryn y milwyr oedd yn cadw gwyliadwriaeth (Mth. 28:4). Mae gan Dr W. E. Sangster sylw treiddgar ynglŷn â'r maen sy'n rhoi golwg bellach inni ar wir bwrpas ei symud: 'Treiglodd Duw y maen, nid er mwyn i'w Fab gyfodi, ond er mwyn i ni wybod iddo gael ei gyfodi, fel y caem ninnau sleifio i'r bedd gwag a gweld yn unig y man lle rhoddwyd ef i orffwys.'

Ni chyfodwyd Crist pan symudwyd y maen o reidrwydd; y tebyg yw ei fod eisoes wedi ei gyfodi. Sylwodd Pedr fod ei gorff wedi pasio trwy'r llieiniau a roddwyd amdano a bod y rheini'n gorwedd yn llipa yn y man lle bu ei gorff (Ioan 20:6). Fe basiodd hefyd trwy'r graig yr oedd y beddrod wedi ei naddu ohoni ac fe dreiglwyd y maen wedyn ar ein cyfer ni, a'r bedd gwag yn dystiolaeth o'i atgyfodiad sydd yn addewid i ni ym mhob oes o'n hatgyfodiad ninnau, y rhai sy'n derbyn 'pardwn dynol-ryw' o'i 'law alluog' ef.

GWEDDI

O Dduw Hollalluog, ni all fy enaid byth dewi â sôn a chanu mawl wrth i mi ryfeddu at wyrth yr atgyfodiad. Diolch bod imi dystiolaeth yr Efengylau o'i wirionedd. Boed imi fod â thystiolaeth yr Ysbryd hefyd dy fod yn fyw heddiw yn fy nghalon i. Yn enw Iesu, yr atgyfodiad a'r bywyd. Amen.